# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, Lewis Davies, Jim Evans, W. T. Hughes, T. H. Jones, R. L. Owen, Clive McGregor, Eric Roberts, H. W. Thomas, J. Penri Williams. |
| **WRTH LAW**: | Rheolwr Datblygu Cynllunio (DFJ)<br>Cynorthwy-ydd Cynllunio (IWJ)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Prif Beiriannydd (Rhwydwaith)(HP)<br>Uchel Beiriannydd (Rheoli Datblygu)<br>Swyddog Rheoli Datblygu (RE)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SWJ) |

---

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr John Chorlton a K. P. Hughes.

### 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyniwyd a chofnodwyd y datganiadau o ddiddordeb dan yr eitemau perthnasol.

### 3 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2011.

### 4 YMWELIADAU SAFLE

Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle yn dilyn cyfarfod 2 Tachwedd 2011.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y byddai'r adolygiad o'r penderfyniadau cynllunio yn cael ei gynnal ar 18 Ionawr 2012.

### 5 Y CYHOEDD YN SIARAD

Dywedodd y Cadeirydd y byddai aelod o'r cyhoedd yn siarad ar gais 11.8.

### 6 CEISIADAU A OHIRIWYD

***Gwnaed Datganiadau o Ddiddordeb gan y Cynghorwyr W. T. Hughes a T. H. Jones mewn perthynas â cheisiadau 6.1, 6.2, 6.3 a 6.4. Aeth y ddau Aelod allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar y cais.***

**6.1 11C572 – Codi Tyrbin Gwynt gyda hwb hyd at 15m o uchder, rotor hyd at 9.7m ar draws ac uchder brig fertigol hyd at 19.85m ar dir yn Tal y Llyn, Mynydd Parys, Amlwch.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod ffi'r cais wedi ei thalu gan Gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn.

Yn y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2011 a 2 Tachwedd 2011, penderfynodd yr Aelodau ohirio rhoi sylw i'r cais fel bod modd ymgynghori ymhellach ynghylch lefelau sŵn.

Argymhellodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y dylid gohirio'r cais oherwydd bod trafodaethau yn parhau ac nad yw'r mater wedi ei ddatrys. Adroddodd bod amheuon yn parhau ynghylch a fyddai'r lefelau sŵn yn foddhaol a phwysleisiodd bod angen gwneud mwy o waith cyn i'r Pwyllgor ddod i benderfyniad ar y cais.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts, gyda'r Cynghorydd R. L. Owen yn eilio, y dylid gohirio rhoi sylw i'r cais.

**PENDERFYNWYD gohirio rhoi sylw i'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**6.2 11C573 – Codi Tyrbin Gwynt gyda hwb hyd at 15m o uchder, rotor hyd at 9.7m ar draws ac uchder brig fertigol hyd at 19.85m ar dir yn Penrallt, Penrhyd, Amlwch.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod ffi'r cais wedi ei thalu gan Gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn a bod y cais yn cael ei wneud ar dir Cynghorydd Sir arall ar Gyngor Sir Ynys Môn.

Dywedodd y Swyddog bod y cais wedi cael ei ohirio yng nghyfarfodydd 5 Hydref a 2 Tachwedd 2011 er mwyn cynnal trafodaethau pellach ynglŷn â lefelau sŵn. Roedd trafodaethau bellach wedi'u cynnal ac roedd yr Adain Iechyd Amgylcheddol o'r farn na fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol o safbwynt sŵn. Fodd bynnag, roedd yr Ymgynghorydd Ecolegol wedi lleisio pryderon ynglŷn â lleoliad y tyrbin ac y dylai fod o leiaf 50m oddi wrth y gwrychyn er mwyn diogelu ystlumod. Y pellter y gofynnwyd amdano yn wreiddiol oedd 40m ond roedd hyn bellach wedi ei newid i 50m. Roedd materion sŵn wedi'u datrys yn llawn ac felly gofynnodd y swyddog am i'r cais gael ei gymeradwyo mewn egwyddor gydag awdurdod yn cael ei roddi i swyddogion i ddatrys mater lleoliad y tyrbin trwy negodi a dod i gytundeb ar y cyd rhwng yr ymgeisydd a'r ymgynghorydd. Pe bai'r tyrbin yn cael ei leoli yn rhywle arall, byddai'n rhaid ymgynghori ymhellach gyda chymdogion a byddai unrhyw safbwynt nad oedd wedi'i ystyried neu unrhyw wrthwynebiadau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Jim Evans, cadarnhaodd y Swyddog bod gan y Cyngor bolisïau ynglŷn â thyrbinau ac y byddai ymgynghori ar Gyfarwyddyd Cynllunio Atodol yn dod i ben ar 10 Chwefror 2012. Dywedodd y Cynghorydd J. Penri Williams ei fod o blaid ynni gwynt er bod ei ddefnydd wedi dod i ben yng ngwlad Denmark. Lleisiodd ei bryder ynglŷn â nifer o dyrbinau sy'n ymddangos ar draws yr Ynys a'r effaith y gallai hyn ei gael ar y dirwedd yn arbennig o safbwynt twristiaeth. Cynigiodd bod y cais yn cael ei ohirio hyd nes y ceid adroddiad ar yr effaith andwyol bosibl ar dwristiaeth. Roedd yn credu y gallai'r ddadl economaidd fod yn gryfach nag unrhyw bolisïau cynllunio a thra nad oedd ganddo farn y naill ffordd na'r llall ynglŷn â'r cais arbennig hwn, roedd yn credu bod ei ohirio hyd nes y ceid adroddiad yn beth doeth i'w wneud.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio ei fod yn gwybod am bryderon ar draws yr Ynys ond atgoffodd yr Aelodau mai cais oedd hwn am dyrbin 15m. Tynnodd sylw at ei adroddiad oedd yn dangos asesiad manwl oedd wedi'i wneud ar y cais ac mai'r casgliad y daethpwyd iddo oedd na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar y dirwedd. Byddai gohirio'r cais hyd nes y ceid

adroddiad ar yr agwedd dwristaidd yn golygu oediad am sawl mis a hynny'n golygu na fyddai'r cais yn cael ei benderfynu ac fe fyddai'n anhapus iawn i orfod amddiffyn y penderfyniad mewn apêl. Roedd y Cadeirydd yn cytuno gyda'r safbwyntiau hynny.

Dywedodd y Cynghorydd Hefin Thomas bod angen adolygu'r polisïau ynglŷn â thyrbinau gwynt mawr. Nid oedd yn orbryderus gyda'r cais hwn gan nad oedd y tyrbin ond yn 15m ond roedd am atgoffa'r aelodau bod y cais wedi cael ei gyflwyno dros 6 mis yn ôl ac roedd yn bryderus iawn mai dim ond yn awr yr oedd yr Ymgynghorydd Ecolegol wedi gwneud ei sylwadau. Cwestiynodd yr angen i symud y tyrbin i ffwrdd oddi wrth y gwrychyn o gofio y gallai'r perchennog fod wedi dymchwel y gwrychyn heb ganiatâd pe bai'n dymuno gwneud hynny. Cynigiodd y dylid caniatáu'r cais a rhoi awdurdod i swyddogion drafod ail-leoli'r tyrbin. Eiliodd y Cynghorydd Eric Roberts y cynnig.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais a bod awdurdod yn cael ei roi i swyddogion i drafod ail-leoli'r tyrbin.**

*Ataliodd y Cynghorydd Lewis Davies a John Penri Williams eu pleidlais ar y cais.*

**6.3 38C266 – Codi Tyrbin Gwynt gyda hwb hyd at 15m o uchder, rotor hyd at 9.7m ar draws ac uchder brig fertigol hyd at 19.85m ar dir yn Rhoslan, Rhosgoch.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod ffi'r cais wedi ei thalu gan Gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn.

Cadarnhaodd y swyddog bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Adain Iechyd Amgylcheddol a bod yr holl bryderon wedi'u datrys yn foddhaol. Dywedodd y byddai amodau yn cael eu gosod ar y rhybudd penderfyniad pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu a gofynnodd i'r aelodau ganiatáu iddo aileirio amod 10 yng ngoleuni gwybodaeth bellach ynglŷn â lefelau sŵn yn yr ardal.

Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Jim Evans.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais a rhoi awdurdod i swyddogion aileirio'r amodau, yn arbennig amod 10, fel eu bod yn briodol i'r cais.**

*Ataliodd y Cynghorydd Lewis Davies a John Penri Williams eu pleidlais ar y cais.*

**6.4 44C288 – Codi Tyrbin Gwynt gyda hwb hyd at 15m o uchder, rotor hyd at 9.7m ar draws ac uchder brig fertigol hyd at 19.85m ar dir yn Pensarn, Rhosgoch.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod ffi'r cais wedi ei thalu gan Gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn.

Yn y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2011 a 2 Tachwedd 2011 roedd yr Aelodau wedi penderfynu gohirio ystyried y cais hwn er mwyn caniatáu mwy o amser i drafod ac ymgynghori ynglŷn â lefelau sŵn.

Argymhellodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais yn cael ei ohirio oherwydd bod trafodaethau'n parhau a heb eu datrys. Dywedodd bod yna amheuon o hyd a fyddai'r lefelau sŵn yn foddhaol a phwysleisiodd bod angen gwneud mwy o waith cyn y gallai'r Pwyllgor ddod i benderfyniad ar y cais.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts, gyda'r Cynghorydd R. L. Owen yn eilio, y dylid gohirio rhoi sylw i'r cais.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

## 7. CEISIADAU YN CODI O'R COFNODION

### 7.1 42C60F – Codi annedd a garej yn Stryd y Capel, Pentraeth

Roedd y cais hwn yn tynnu'n groes i'r Cynllun Datblygu gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn bwriadu ei ganiatáu. Cafodd y cais ei ohirio yng nghyfarfod mis Tachwedd er mwyn gallu rhoi rhybudd ac ymgynghori ar y cynlluniau newydd oedd yn cael eu disgrifio yn adroddiad y swyddog.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod un gwrthwynebiad wedi ei dderbyn ynglŷn â dŵr wyneb a charthffosiaeth, ond, roedd y swyddogion wedi delio gyda'r holl faterion a godwyd. At hyn, roedd pryderon a leisiwyd gan y Cyngor Cymuned wedi'u hystyried a'u datrys.

Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas bod y cais yn cael ei ganiatáu gyda'r Cynghorydd Eric Roberts yn eilio'r cynnig.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog ac awdurdodi'r swyddogion i ddatrys unrhyw faterion technegol cyn rhyddhau'r rhybudd penderfyniad.**

## 8 CEISIADAU ECONOMAIDD

Nid oedd unrhyw geisiadau economaidd wedi'u cyflwyno i'w penderfynu.

## 9 CEISIADAU TAI FFORDDIADWY

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

## 10 CEISIADAU'N TYNNU'N GROES

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

## 11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION

### 11.1 - 11C216C – Codi 1 tyrbin gwynt gydag uchafswm uchder hwb o hyd at 15m, diametr rotor o hyd at 5.5m ac uchder fertigol i'r llafn o hyd at 17.5m ar dir yn Erwau'r Gwynt, Burwen.

*Datganodd y Cynghorwyr W. T. Hughes a T. H. Jones ddiddordeb yn y cais ac aethant allan o'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar y cais.*

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor oherwydd bod perchennog safle'r cais yn aelod o'r Cyngor Sir. Fe wnaed y cais gwreiddiol am dyrbin mwy ond roedd bellach wedi cael ei ostwng o ran ei faint a graddfa pŵer. Roedd cynllun diwygiedig wedi'i dderbyn yn ail-leoli'r tyrbin yn unol ag argymhellion Ymgynghorydd Amgylcheddol y Cyngor fel oedd yn cael ei nodi yn yr adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd asesiad amgylcheddol wedi ei gwblhau'n foddhaol ac roedd materion lefel sŵn wedi'u datrys. Tynnodd sylw at y ffaith mai cais oedd hwn am un tyrbin gwynt tra bod yr adroddiad yn cyfeirio at fwy nag un, ac felly gofynnodd am ganiatâd i ddiwygio'r amodau fel eu bod yn cyfeirio at un tyrbin gwynt yn unig.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei ganiatáu. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Jim Evans.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais gan roi awdurdod i swyddogion newid yr amodau i gyfeirio at un tyrbin gwynt yn unig.**

*Ataliodd y Cynghorwyr Lewis Davies a John Penri Williams eu pleidlais ar y cais.*

**11.2 19C222E/CE – Cais am ganiatad ardal cadwraeth ar gyfer dymchwel yr eiddo presennol ynghyd â chodi 9 o fflatiau yn yr Hen Neuadd Sgowtiaid a thir ger 2 Carreg Domas, Caergybi**

*(Ystyriwyd y cais hwn ochr yn ochr ag 11.3 isod)*

Roedd y cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod partner yr ymgeisydd yn gweithio i'r awdurdod lleol. Roedd y cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio mai cynnig oedd hwn am ganiatâd Ardal Cadwraeth.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**11.3 19C222F – Cais llawn i ddymchwel yr eiddo cyfredol a chodi 9 fflat yn yr Hen Neuadd Sgowtiaid a thir ger 2 Carreg Domas, Caergybi.**

*(Ystyriwyd y cais hwn ochr yn ochr ag 11.3 isod)*

Roedd y cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod partner yr ymgeisydd yn gweithio i'r awdurdod lleol. Roedd y cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y safle ar gyrion canol Tref Caergybi ac o fewn Ardal Gadwraeth ddynodedig Caergybi. Roedd y cais wedi'i dynnu'n ôl cyn hyn er mwyn ei newid a chytuno ar ddyluniad y cynnig.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**11.4 - Cais llawn i godi annedd ddeulawr ar dir ger Tafarn y Gors, Pentre Berw.**

Roedd y cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn i aelod o staff sy'n gweithio yn Adran y Rheolwr-gyfarwyddwr. Roedd y cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio mai cais llawn oedd hwn i godi annedd ddeulawr ar wahân a fyddai'n defnyddio'r fynedfa gyfredol sy'n gwasanaethu'r dafarn a'r maes carafannau. Ei argymhelliad oedd un o ganiatáu.

Gofynnodd y Cynghorydd Hefin Thomas a oedd y swyddog yn fodlon na fyddai'r cynnig yn cyfrannu tuag at gau'r bwlch rhwng Pentre Berw a Gaerwen. Dywedodd y Swyddog bod asesiad wedi'i wneud a'i fod yn teimlo y gallai cefnogi'r cais ar ôl pwyso a mesur. Cadarnhaodd y swyddog ymhellach nad oes unrhyw ffin ddatblygu ym Mhentre Berw ac felly nid oedd y mater o dai fforddiadwy yn berthnasol.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts y dylid caniatáu'r cais ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd R. L. Owen.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**11.5 33C293 – Cais llawn i godi annedd ddeulawr ar dir ger Tafarn y Gors, Pentre Berw.**

Roedd y cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn aelod o staff sy'n gweithio i'r Cyngor Sir. Roedd y cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio mai cais llawn oedd hwn i godi annedd ddeulawr ar wahân a fyddai'n defnyddio'r fynedfa gyfredol sy'n gwasanaethu'r dafarn a'r maes carafanau. Ei argymhelliad oedd un o ganiatáu.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts y dylid caniatáu'r cais ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd John Penri Williams.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**11.6 34C625 – Gwaith altro ac ymestyn a dymchwel y garej gyfredol yn 30 Ethinog, Tan Capel, Llangefni**

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn i aelod staff sy'n gweithio i'r Cyngor Sir. Roedd y cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio mai annedd bâr sydd ar safle'r cais gyda'r gwaith yn golygu dymchwel y garej gyfredol yng nghefn yr eiddo a chodi estyniad deulawr yng nghefn ac wrth ochr yr annedd. Ei argymhelliad oedd caniatáu.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd gan y Cynghorydd R. L. Owen.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'w Pwyllgor.**

**11.7 36C63G – Cais llawn i newid defnydd garej yn annedd a gwaith altro ac ymestyn yn Tyn y gongl, Rhostrehwfa.**

Dygwyd y cais hwn gerbron y Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn i aelod staff sy'n gweithio i Gyngor Sir Ynys Môn. Roedd y cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio mai cynnig yw hwn i addasu'r garej a'r uned breswyl, lle ceir llawr isaf a llawr uchaf, yn un uned breswyl gyfan. Byddai'r llawr cyntaf yn cael ei ddefnyddio fel dwy lofft ac ystafell ymolchi, a'r llawr isaf fel cegin, cawod a thoiled ac ystafelloedd byw. Bwriedir codi estyniad un llawr yng nghefn yr adeilad. Hefyd bwriedir cael estyniad bychan ar y cefn yn mesur 4 x 8.5m ar y cynllun, o dan do fflat gyda golau latern. Mae'r adeilad cyfredol yn mesur 8 x 9m ar y cynllun gydag uchder crib o 6m gyda'r llety wedi'i drefnu tros ddau lawr. Argymhelliad y Swyddog oedd caniatáu. Dywedodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd W. I. Hughes, ei fod yn cytuno gydag argymhelliad y Swyddog.

Dywedodd y Cynghorydd Hefin Thomas ei fod wedi ei synnu i weld cyfeiriad at geisiadau blaenorol ar y safle wedi'u cynnwys fel rhan o adroddiad y Swyddog oherwydd fe ddywedir wrth Aelodau am ystyried y ceisiadau sydd o'u blaen heb dalu sylw i unrhyw gais blaenorol. Dywedodd Cynghorydd John Penri Williams bod y garej gyfredol yn edrych fel annedd a gofynnod, pe bai'r cais wedi bod yn un am ddwy annedd, a fyddai'r argymhelliad wedi bod yn un o ganiatáu. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith mai'r argymhelliad blaenorol oedd un o wrthod. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y dylent ystyried y cais o'u blaenau a hynny ar ei rinweddau.

Cynigiodd y Cynghorydd R. L. Owen bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**11.8 47C116A – Cais llawn i wneud gwaith altro ac ymestyn yn Bronwe, Llantrisant.**

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn gweithio i'r Cyngor Sir yn yr Adran Cynllunio. Roedd y cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr. Darren Hughes, partner Delyth, yr ymgeisydd, i siarad gerbron y cyfarfod. Dywedodd Mr. Hughes ei fod yn dymuno ehangu ychydig ar y llythyr o gefnogaeth yr oedd wedi'i gyflwyno fel rhan o'r cais. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod ganddynt fab 10 oed sy'n rhannu llofft gyda'i chwaer 4 oed. Fel y gallai'r aelodau dychmygu, nid oedd hyn yn ddelfrydol gan bod y plentyn hynaf mewn oed lle y mae angen ei le ei hun fel y gallai wahodd ei ffrindiau i'w gartref, gwneud ei waith cartref ac ymlacio heb gael ei chwaer dan draed. At hyn, yr oedd nyrs yr ysgol wedi cyflwyno llythyr i gefnogi'r cais er lles y plant.

Y prif rheswm dros gyflwyno'r cais gwreiddiol oedd i alluogi i Delyth ac yntau godi teulu yn yr un ardal wledig lle'r oedd wedi bod yn ddigon ffodus i gael ei ddwyn i fyny ac yn ychwanegol at hynny i ddarparu cefnogaeth i'w theulu gyda'u busnes amaethyddol a'u helpu hwy wrth iddynt fynd yn hŷn. Roedd ef a Delyth yn dymuno parhau gyda'r cysylltiad teuluol a darparu cartref i genhedlaeth nesaf y teulu yn yr un ardal.

Roedd wedi edrych ar y rhesymau tros wrthod ac yr oedd yn anghytuno â hwy. Yn ôl Polisi HP8 y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd, mae'n llawer gwell addasu adeilad i'r pwrpas o'i wneud yn lle byw na chaniatáu i'r adeilad fynd a'i ben iddo a thrwy hynny niweidio'r dirwedd. Roedd yn credu, yn unol â Pholisi 55 y Cynllun Lleol, bod edrychiad yr adeilad presennol wedi cael ei wella'n sylweddol pan roddwyd caniatâd cynllunio i addasu'r adeilad. Roedd dyluniad yr estyniad yn adlewyrchu dyluniad yr eiddo cyfredol ac ni fyddai'r cynnig yn ymwthio yn anffafriol i mewn i'r dirwedd ac ni fyddai chwaith yn cael effaith andwyol ar harddwch yr ardal o gwmpas. Roedd y trefniadau gyda'r fynedfa, parcio, llecyn agored a'r garthffosiaeth i gyd yn foddhaol.

Roed Delyth ac yntau wedi gweithio'n galed i gadw cymeriad y bwthyn ac i greu cartref o safon uchel i'r teulu. Roedd nifer o bobl, pan oeddent wedi gweld Delyth ac yntau yn yr ardd, wedi stopio i'w llongyfarch ar yr hyn yr oeddent wedi'i wneud. Pwysleisiodd mai teulu ifanc ydynt oedd yn dymuno aros yn yr ardal lle roeddent wedi cael eu magu a'r peth olaf yr oeddent yn dymuno ei wneud oedd symud i ffwrdd o'r ardal.

Roedd yn gobeithio y gallai'r Pwyllgor gefnogi eu cais am y rhesymau yr oedd wedi'u hegluro a chaniatáu'r estyniad sengl hwn i ganiatáu iddynt fel teulu barhau yn yr ardal lle yr oeddent wedi setlo i lawr mor dda. Nid oeddent yn gofyn am eiddo mawr a moethus, ond yn hytrach am gartref teuluol i gyfarfod â'u hanghenion.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio mai eiddo sydd wedi ei addasu sydd ar y safle ac fe gafodd ganiatâd yn mis Ebrill 2007 fel annedd ac mae yng nghanol cefn gwlad agored. Roedd y cynnig yn golygu codi estyniad llofft ger ochr yr eiddo. Roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried bod yr estyniad arfaethedig yn groes i Bolisi 55 Cynllun Lleol Ynys Môn a Pholisi HP8 Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd ac y byddai'n tanseilio integriti'r polisiau hynny a hefyd y cyfarwyddyd geir yng Ngyfarwyddyd Cynllunio Atodol y Cyngor - Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig a Chadwraeth Gwledig. Dywedodd bod yr estyniad a ganiatawyd yn 2007 wedi mwy na dyblu'r ôl-troed brint wreiddiol i'r eiddo ac y byddai caniatáu estyniad arall y tu allan i ddarpariaethau'r polisïau. Ei argymhelliad oedd gwrthod.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Aelod Lleol, y Cynghorydd E. Schofield siarad gerbron y cyfarfod. Diolchodd y Cynghorydd Schofield i'r Cadeirydd am y cyfle a dywedodd y byddai'r Aelodau yn sylweddoli mai hwn oedd y tro cyntaf iddo ef gymryd mantais o'r system newydd o siarad gerbron yr Aelodau, ond er hynny roedd yn credu'n gryf bod hwn yn gais haeddiannol. Roedd yn cydnabod safbwyntiau'r Rheolwr Datblygu Cynllunio a sicrhaodd yr Aelodau nad oedd yn dymuno mynd yn groes i Bolisi 55 na HP8 ond roedd, fodd bynnag, am gwestiynu a oedd y polisiau hynny'n briodol ar gyfer y cais arbennig hwn. Dywedodd bod Polisi 55 yn caniatáu adeiladu estyniad fyddai'n fwy na'r annedd wreiddiol cyn belled ag nad oedd yn andwyol i'r amgylchedd. Bwriad y cais hwn oedd creu cartref i deulu ifanc yn eu hardal eu hunain. Roedd y ôl-troed gwreiddiol yn fychan gyda'r estyniad cyntaf ond yn 8 x 6 - roedd yn gwybod am eiddo lle'r oedd y lolfa yn fwy na 8 x 6 ac felly fe fyddai 50% neu hyd yn oed 100% o'r gwreiddiol yn fychan iawn yn yr enghraifft yma. Roedd y teulu yma wedi buddsoddi yn eu cartref yn unol â'u gallu. Roeddent yn awr yn cael eu hunain mewn sefyllfa lle'r oedd ganddynt ddau blentyn ac felly angen llofft ychwanegol i gyfarfod â'u hanghenion. Nid oedd yn credu bod hyn yn milwrio yn erbyn y polisi ond yn hytrach yn cyfarfod ag anghenion y teulu ifanc. Roedd yn derbyn bod y swyddogion yn gorfod dilyn polisïau ond roedd yn credu y gallai'r aelodau fod ychydig bach yn fwy hyblyg a gofynnodd iddynt gefnogi'r teulu hwn oedd yn gydwybodol wedi adeiladu annedd yn ôl eu gallu a dim ond i gyfarfod a'u hanghenion. Anogodd yr Aelodau i ganiatáu iddynt barhau yn yr ardal lle roeddent wedi eu dwyn i fyny trwy ganiatáu'r cais hwn.

Wrth ymateb, fe ategodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod Polisi 55 yn briodol. Mae codi adeilad mewn ardal wledig yn eithriad ac ni ellid caniatáu hyn ond trwy addasu adeilad sydd yno'n barod. Roedd yr ymgeisydd yn ymwybodol o delerau ac amodau'r datblygiad pan gyflwynwyd y cais cyntaf. Ni fyddai caniatâd wedi cael ei roi am adeilad mwy o'r cychwyn, ac yr oedd yr adeilad gwreiddiol yn fychan ac fe ganiatawyd estyniad bychan. Tra roedd ganddo gydymdeimlad mawr gyda'r ymgeiswyr, roedd yn credu bod y cynnig yn fwy nag estyniad bychan ac nid oedd yn barod i danseilio'r polisi. Roedd ei benderfyniad felly yn parhau yn un o wrthod.

Dywedodd y Cynghorydd Eurfryn Davies ei fod wedi cefnogi'r cais gwreiddiol a'i fod yn croesawu gweld adeiladau oedd wedi mynd a'u pennau iddynt mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hadnewyddu ar gyfer eu defnyddio fel cartrefi i deuluoedd. Cynigiodd bod y cais yn cael ei ganiatau.

Eiliodd y Cynghorydd John Penri Williams y cynnig ond gofynnodd a fyddai'n bosibl gosod cytundeb Adran 106 er mwyn sicrhau na fydd yna unrhyw ddatblygiad pellach ar y safle.

Roedd y Cynghorydd Eric Roberts hefyd yn cefnogi'r cais ond heb y Cytundeb Adran 106. Cefnogodd y Cynghorydd T. H. Jones y cais hefyd oherwydd bod y teulu wedi tyfu yn y 5 mlynedd ddiwethaf ac roedd yna angen am drydydd llofft. Roedd yn gwybod am leoliad yr eiddo ac roedd o'r farn na fyddai estyniad yn cael effaith ar unrhyw eiddo cyfagos.

Mewn ymateb i gynnig y dylai Cytundeb Adran 106 gael ei osod, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol nad oedd yn credu y byddai hynny'n briodol yn yr achos hwn. Byddai

angen i unrhyw gais yn y dyfodol ar y safle gael ei benderfynu ar  y pryd hwnnw ac ar ei rinweddau.

Cynigiodd y Cynghorydd Eurfryn Davies bod y cais yn cael ei ganiatau, a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog ac eiliodd y Cynghorydd J. Penri Williams y cynnig.

Roedd y pleidleisio fel a ganlyn:-

O blaid y cais, ac i'w gymeradwyo'n groes i argymhelliad y Swyddog:-

Y Cynghorwyr E. G. Davies, L. Davies, J. Evans, W. T. Hughes, T. H. Jones, R. L. Owen, C. McGregor, Eric Roberts, J. Penri Williams.

Fe ataliodd y Cynghorwyr J. Arwel Roberts a H. Thomas y bleidlais ar y cais.

Y rhesymau a roddwyd tros ganiatáu'r cais oedd bod yr Aelodau yn credu bod y cais yn cydymffurfio gyda Pholisi 55, yr oedd yn gais am estyniad derbyniol oherwydd ei faint a'i leoliad. Ni fyddai'n tarfu ar unrhyw eiddo arall  a byddai'n ffitio i mewn yn dda i'r tirlun.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog.  Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor bydd y cais yn cael ei ohirio'n awtomatig i'r cyfarfod nesaf i ganiatau cyfle i'r Swyddogion baratoi adroddiad ar y rhesymau tros ganiatau'r cais.**

**12  GWEDDILL Y CEISIADAU**

**12.1   11C143H – Newid defnydd o ddefnydd diweydiannol ysgafn i orsaf ambiwlans yn Uned 2 Parc Busnes Amlwch, Amlwch**

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor oherwydd ei fod yn gais ar dir y Cyngor.  Cais oedd i newid defnydd yr uned o ddefnydd diwydiannol ysgafn o dan Dosbarth B1 i orsaf ambiwlans sydd yn sui generis.  Caniatáu oedd yr argymhelliad.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei ganiatau ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Hefin Thomas.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**12.2  19C333B – Cais llawn i godi 12 annedd ynghyd ag adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr ar dir yn Westbury Mount, Ffordd Ynys Lawd, Caergybi**

Yr aelod lleol oedd wedi gofyn am i'r cais hwn gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Cynllunio. Dywedodd y Cynghorydd J. V. Owen bod y safle o fewn dwy ward ac felly byddai'n cyflwyno ei safbwyntiau ei hun a safbwyntiau Trefor Lloyd Hughes.  Roedd y Cynghorydd Hughes yn dymuno mynegi ei bryderon ynglŷn â'r elfen traffig.  Dywedodd y Cynghorydd Owen ei fod o'r farn bod y cais yn un i ddefnyddio'r tir mewn ffordd onest a theg a bod y broblem draffig yn un oedd yn nes ymlaen i lawr y ffordd o'r safle arfaethedig.  Dywedodd bod yr adeiladwr yn ddyn lleol gydag enw da iddo ac felly nid oedd yn dymuno lleisio unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.  Cadarnhaodd y Swyddog bod y cynnig yn cynnwys elfen o 30% o dai fforddiadwy.

Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas bod y cais yn cael ei ganiatau ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**12.3 21LPA951/CC – Cais llawn i adeiladu pont droed i greu ychwanegiad i lwybr Arfordirol Ynys Môn tros Afon Braint, Pwllfanogl, Llanfairpwll**

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor gan mai'r Awdurdod Lleol oedd yn gwneud y cais.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies bod y cais yn cael ei gymeradwyo. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**12.4 25LPA798D/CC – Ffurfio maes parcio a chodi ffens 1.5m o uchder yn Ysgol Gynradd Llannerch-y-medd, Stryd Welington, Llannerch-y-medd.**

Roedd y cais wedi cael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor oherwydd mai'r Awdurdod Lleol oedd yn cyflwyno'r cais.

Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas bod y cais yn cael ei gymeradwyo. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Eurfryn Davies.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**12.5 Codi bwrdd hysbysebu heb ei oleuo yn Ysgol y Graig, Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni**

Roedd y cais yn un oedd yn cael ei wneud ar dir y Cyngor a dyna paham yr oedd yn dod gerbron y Pwyllgor. Roedd y cynnig yn golygu codi dau fwrdd hysbysebu 4m o uchder heb ei goleuo wedi'u trefnu ar siap "V". Argymhelliad y swyddog oedd caniatáu.

Cynigiodd y Cynghorydd Eurfryn Davies bod y cais yn cael ei gymeradwyo. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd T. J. Jones.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**12.6 Creu ménage ceffylau yn Bwthyn Alma, Carreglefn**

Yr Aelod Lleol, y Cynghorydd T. H. Jones oedd wedi gofyn am i'r cais hwn gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Cynllunio. Dywedodd bod y Cyngor Cymuned yn bryderus ynglŷn â'r datblygiad ar y tir hwn oherwydd bod yr ysgol leol ar yr ochr dde i'r safle ddatblygu arfaethedig. Roedd wedi rhoi cyfle i bobl leol fynychu'r cyfarfod i wrthwynebu'r cynnig ond roedd yn nodi nad oedd neb yn bresennol.

Cynigiodd y Cynghorydd R. L. Owen bod y cais yn cael ei gymeradwyo. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Hefin Thomas.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

*Ni chymerodd y Cynghorydd Eric Roberts unrhyw ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y cais. Ataliodd y Cynghorydd T. H. Jones ei bleidlais.*

**12.7 41C109C - Cais amlinellol i godi annedd, llunio mynedfa i gerbydau a gosod tanc septig ar dir ger Artwood, Star**

Yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Eric Jones oedd wedi gofyn am i'r cais hwn gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Cynllunio.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y safle y drws nesaf i'r annedd ddiwethaf wrth i rhywun adael pentref Star tua'r gogledd orllewin ac mai cae amaethyddol ydyw gyda wal gerrig a ffens o'i amgylch.  Yn weledol, mae'r safle ar wahân i bentref Star, ac yn cael ei wahanu'n arbennig gan glwmp o goed sy'n ei wahanu oddi wrth yr annedd gyfagos.  Roedd hyn, ynghyd â'i safle uchel mewn perthynas â gweddill y pentref, yn gwaethygu ei wahanrwydd oddi wrth y pentref ac fe fyddai cael datblygiad yma yn ymestyn yr anheddiad y tu hwnt i'w ffiniau rhesymegol gan greu estyniad o ddatblygiad rhubanaidd ar yr ochr hon i'r ffordd.  Nid oedd y cais felly yn cyfateb i estyniad bychan i ran ddatblygedig o'r anheddiad.  Ei argymhelliad oedd un o wrthod.

Dywedodd y Cynghorydd Eric Jones mai person ifanc lleol yw'r ymgeisydd ac yntau wedi cael ei eni a'i ddwyn i fyny yn Star ac yn dymuno setlo i lawr yn yr ardal i fagu ei deulu.  Cyfeiriodd at Seminar Gynllunio a gynhaliwyd yn ddiweddar lle dywedwyd ei bod yn bwysig helpu pobl ifanc oedd yn dymuno setlo yn eu hardal leol.  Roedd yr ymgeisydd yn ffermio 50 acer o dir ac roedd ei fam wedi cynnig rhoi'r plot hwn iddo. Byddai'n fodlon gwneud cytundeb Adran 106 yn rhwystro unrhyw ddatblygiad pellach ac fe fyddai'n plannu coed er mwyn lleihau'r effaith weledol.  Roedd wedi synnu at argymhelliad y Swyddog i wrthod a chyfeiriodd at ddatblygiadau a phenderfyniadau cynllunio eraill yn yr ardal.  Terfynodd trwy ddweud nad oedd yna unrhyw wrthwynebiad lleol i'r cais.

Dweud wnaeth y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod yna 5 o lythyrau yn gwrthwynebu wedi cael eu derbyn.  Nid oedd yn cytuno bod gwirfoddoli i wneud cytundeb Adran 106 yn rheswm i roi caniatâd cynllunio.  Roedd yn gadarn o'r farn bod y cynnig yn torri trwy'r ffin ffisegol a'r ffin weledol sydd yn bodoli yno.  Nid mater o farn oedd hyn, ond ffeithiau moel.  Roedd wedi ymweld â'r safle ac nid oedd ganddo unrhyw amheuaeth y byddai'r cynnig yn ymwthio i'r cefn gwlad.

Dywedodd y Cynghorydd Hefin Thomas ei fod yn cael ei hun mewn sefyllfa anodd.  Yn gynt yn y cyfarfod roedd y Pwyllgor wedi rhoi caniatâd i ddwy annedd ym Mhentre Berw lle'r oedd yna fwlch o 100m rhwng y safle datblygu a'r eiddo agosaf.  Nid oedd safle'r cais hwn ond tros y wal derfyn.  Nid oedd yn gais oedd yn tynnu'n groes.  Roedd y person ifanc wedi cael y cyfle i adeiladu cartref iddo'i hun a'i deulu ac roedd yn barod i wneud cytundeb Adran 106.  Cynigiodd bod y cais yn cael ei ganiatau.

Dywedodd y Cynghorydd John Penri Williams ei fod yn teimlo y gallai ffafrio'r cais hyd nes y gwelodd y terfyn clir oedd yn bodoli.  Gan ymddiheuro i'r ymgeisydd, cynigiodd bod y cais yn cael ei wrthod.

Tra'n cadarnhau cwestiwn y Cynghorydd T. H. Jones yn gofyn a fyddai'r cytundeb Adran 106 yn ymestyn i'r cae i gyd, pwysleisiodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio nad oedd hyn yn rheswm i ganiatau'r cais.  Rhaid i'r aelodau ddelio gyda'r cais oedd o'u blaenau ac roedd hwnnw yn hollol amlwg y tu allan i ffin ffisegol y pentref.  Roedd yntau hefyd yn cydymdeimlo gyda'r ymgeisydd, roedd caniatâd yn cael ei geisio ar ddarn o dir ac nid ar gyfer unigolion.  Roedd am ategu y byddai'r cynnig yn cael effaith anffafriol ar y dirwedd.

Dweud wnaeth yr Aelod Lleol nad oedd ganddo unrhyw gymwysterau cynllunio ond y gallai weld yn blaen drosto'i hun y byddai'r datblygiad yn un derbyniol.  Cyfeiriodd unwaith yn rhagor at geisiadau cynllunio blaenorol ac ychwanegodd, pe bai'r cais hwn yn cael ei wrthod byddai'n rhoi cyngor i'r ymgeisydd i roi apêl i mewn ar sail anghysonderau.  Nid oedd y Cadeirydd yn or-hoff o'r sylw ond fe ddywedodd y Swyddog y byddai'n barod iawn i amddiffyn ei argymhelliad mewn unrhyw apêl.

Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas bod y cais yn cael ei ganiatau a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog. Eiliodd y Cynghorydd T. H. Jones y cynnig.

Cynigiodd y Cynghorydd John Penri Williams bod y cais yn cael ei wrthod yn unol ag argymhelliad y Swyddog. Eiliodd y Cynghorydd Eric Roberts y cynnig hwnnw.

Roedd y pleidleisio fel a ganlyn:-

Caniatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog:
Y Cynghorwyr H. Thomas, T. H. Jones, W. T. Hughes, E. Davies **4 pleidlais**

Gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog:
Y Cynghorwyr J. Penri Williams, L. Davies, R. L. Owen, Eric Roberts,
W. T. Hughes, J. Arwel Roberts, C. McGregor **7 pleidlais**

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rhesymau oedd yn adroddiad y Swyddog.**

*Ataliodd y Cynghorydd J. Evans ei bleidlais ar y cais.*

**13 MATERION ERAILL**

**13.1 11C545 – Addasu, altro ac ymestyn y biniau copr cyfredol i ffurfio canolfan ymwelwyr newydd yn y Lanfa Olew, Porth Amlwch**

Cafodd y cais ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor oherwydd ei fod yn ymwneud â datblygu tir y Cyngor. Roedd yr ymgeisydd wedi gofyn am gael gwneud newidiadau bychan i'r cynllun oedd wedi cael ei basio sef codi lle bychan i guddio'r casetiau gwresogi a'r biniau. O ystyried natur gweddol fychan y newidiadau, roedd teimlad na fyddai'r newidiadau yn newid llawer ar edrychiad na natur y cynllun oedd wedi cael ei basio o'r blaen. Ei argymhelliad oedd un o ganiatau.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r newidiadau arfaethedig yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**13.2 21LPA632A/CC – Cais i benderfynu a oedd angen caniatâd blaenorol i godi sied amaethyddol i storio peiriannau a bwydydd anifeiliaid yn Glanllyn, Llanedwen**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais hwn wedi cael ei gyflwyno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fe benderfynwyd nad oedd angen caniatâd ymlaen llaw i godi adeilad amaethyddol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth yn unig.**

**13.3 38C185B/SCR – Barn sgrinio i godi un tyrbin gwynt gydag uchafswm uchder hwb o hyd at 32m, diametr rotor o hyd at 29m ac uchder fertigol i flaen y llefn o hyd at 46.5m ar dir yn Maes Mawr, Llanfechell**

*Datganodd y Cynghorwyr W. T. Hughes a T. H. Jones ddiddordeb yn y cais hwn ac aethant allan o'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar y cais.*

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais yn cael ei gyflwyno gan yr Aelod Lleol ac fe benderfynwyd na fyddai angen Asesiad Effaith Amgylcheddol wrth gyflwyno cais llawn.

Ychwanegodd y byddai unrhyw gais i godi tyrbin gwynt ar y tir yn cael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor i'w ystyried.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth yn unig.**

**13.4 47/LPA697A/CC – Cais i benderfynu a oedd angen caniatâd blaenorol i godi sied amaethyddol i storio gwair, peiriannau ac offer yn Bryn Dernog, Llanddeusant**

Dywedodd y Rheolwr Datlbygu Cynllunio bod y cais hwn wedi cael ei gyflwyno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fe benderfynwyd nad oedd angen caniatâd ymlaen llaw i godi adeilad amaethyddol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth yn unig.**

**13.5 – DYDDIADAU CYFARFODYDD**

Cyflwynwyd a nodwyd er gwybodaeth ddyddiadau'r cyfarfodydd o'r Pwyllgorau Cynllunio a Gorchmynion a'r Ymweliadau Safle yn 2012.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a derfynwyd am 2:25pm

**Y CYNGHORYDD J. ARWEL ROBERTS**
**CADEIRYDD**